



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Dyfarniad ac adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar ymchwiliad i gais o dan  
adran 111 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Cyf. 032



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, ac adolygu ac ymchwilio cydymffurfiaeth â'r Mesur. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: [post@comisiynyddygyymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.org)
- Gwefan: [comisiynyddygyymraeg.org](http://comisiynyddygyymraeg.org)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

---

# Cynnwys

---

|   |   |   |
|---|---|---|
| 1 | Gwneud cais i'r Comisiynydd                   | 1 |
| 2 | Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio           | 1 |
| 3 | Yr ymchwiliad                                 | 1 |
| 4 | Dyfarnu'r ymchwiliad                          | 5 |
| 5 | Barn y Comisiynydd ar yr ymyrraeth            | 6 |
| 6 | Crynodeb o farn y Comisiynydd ar yr ymyrraeth | 8 |
| 7 | Cyngor  | 8 |
| 8 | Ymholiadau                                    | 8 |

# Rhagair

Mae Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn sefydlu'r egwyddor bod gan unigolyn ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gydag unigolyn arall yng Nghymru. Mae'r rhagair hwn yn grynodedeb o'r prif hawliau a dyletswyddau o dan Ran 6 y Mesur er mwyn rhoi cyd-destun cyffredinol yn unig. Nid yw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith nac yn cynnwys pob agwedd o fanylder a chamau'r Rhan honno.

## Gwneud cais i'r Comisiynydd

O dan adran 111 y Mesur:

*Caiff unigolyn (P) wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) ('yr ymyrraeth honedig').*

Ystyr cyfathrebiad Cymraeg yn y cyd-destun hwn yw cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad.

At ddibenion y Mesur, gellid barnu bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag R mewn unrhyw un neu fwy o'r achosion canlynol:

*113. – (2) Achos 1 yw pan fo D yn mynegi na ddylai P neu R ymgymryd –*

*(a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg, neu*

*(b) â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg.*

*(3) Achos 2 yw pan fo D yn mynegi y bydd P neu R yn dioddef anfantais (drwy law D neu unrhyw berson arall) oherwydd bod P neu R wedi ymgymryd –*

*(a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg, neu*

*(b) â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg.*

*(4) Achos 3 yw pan fo D, neu berson sy'n gweithredu ar anogaeth D, yn peri bod P neu R yn dioddef anfantais oherwydd bod P neu R wedi ymgymryd –*

*(a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg, neu*

*(b) â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg.*

*(5) Ond, mewn achos sy'n dod o fewn isadran (2)(b), (3)(b) neu (4)(b), dim ond i'r graddau y mae'r categori o gyfathrebiadau yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg y bernir bod D yn ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg.*

(6) At ddibenion isadran (2), mae'r amgylchiadau lle y bernir bod D yn mynegi na ddylai P neu R ymgymryd â chyfathrebiad penodol, neuategori o gyfathrebiadau, yn cynnwys yr amgylchiadau canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt -

- (a) mae D yn dweud wrth P neu R am beidio ag ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau,
- (b) mae D yn mynegi y bydd P neu R yn dioddef anfantais (drwy law D neu unrhyw berson arall) os yw P neu R yn ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau, neu
- (c) mae D, neu berson sy'n gweithredu ar anogaeth D, yn peri bod P neu R yn dioddef anfantais mewn cysylltiad â bod P neu R yn ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau.

(7) At ddibenion yr adran hon, mae'n amherthnasol –

- (a) a oes gan D neu unrhyw berson arall awdurdod i roi mynegiad ai peidio, a
- (b) a oes gan D neu unrhyw berson arall awdurdod i orfodi mynegiad ai peidio.

(8) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at fod P neu R yn dioddef anfantais yn cynnwys bygylu neu fwlio P neu R, aflonyddu arnynt neu eu bychanu.

#### Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu ai i ymchwilio i achos honedig o ymyrraeth ai peidio. Wrth benderfynu rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth ym mha gyd-destun yr honnir bod yr ymyrraeth wedi digwydd. Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig. Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu gwneud hynny, rhaid darparu i P a D y wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau.

#### Ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliad i achos honedig o ymyrraeth o dan adrannau 115-117 y Mesur:

115. – (2) Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig.

Wrth gynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd roi cyfle rhesymol i D i ymateb i'r honiadau a wnaed gan P.

#### Terfynu ymchwiliadau

Yn unol ag adran 116 y Mesur caiff y Comisiynydd derfynu ymchwiliad ar unrhyw adeg.

#### Cwblhau ymchwiliadau

Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i gais, ac nid i derfynu'r ymchwiliad hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg ai peidio. Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad, rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi ei barn ar yr ymyrraeth (gan gynnwys ei barn ynghylch a ellir cyfiawnhau'r ymyrraeth).

Cyn dod i ddyfarniad terfynol, rhaid i'r Comisiynydd hysbysu D o'r dyfarniad y mae'n bwriadu ei gwneud a rhoi cyfle rhesymol i D ymateb i'r dyfarniad arfaethedig hwnnw.

Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D o'r dyfarniad terfynol ac, os dyfarnir bod ymyrraeth wedi digwydd, ei barn ar yr ymyrraeth.

Caiff y Comisiynydd roi i P, D, neu i unrhyw berson arall gyngor ynghylch yr ymyrraeth neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ymyrraeth honedig.

#### Adroddiadau

Llunnir adroddiad o dan adran 118 y Mesur ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad.

*118. – (2) Caiff y Comisiynydd lunio, a rhoi i Weinidogion Cymru, adroddiad ar –*

*(a) y cais, a*

*(b) y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i'r cais.*

Rhaid i'r Comisiynydd roi copïau o unrhyw adroddiad o'r fath i P a D.

Gyda chytundeb P a D caiff y Comisiynydd gyhoeddi adroddiad neu fersiwn o'r adroddiad hwnnw, neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phwnc yr adroddiad. Caiff y Comisiynydd hefyd gyhoeddi dogfen gyhoeddus heb gytundeb os yw o'r farn y byddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Cyn cyhoeddi dogfen gyhoeddus rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D o'r bwriad i gyhoeddi cyn belled ag y bo'n ymarferol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i P, D neu i unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn briodol, i ddatgan eu barn i'r Comisiynydd ynglŷn â chyhoeddi dogfen gyhoeddus.

Yn achos unrhyw gais lle dyfarna'r Comisiynydd nad yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, rhaid i ddogfen gyhoeddus beidio â'i gwneud yn hysbys pwy yw D.

# 1 Gwneud cais i'r Comisiynydd

- 1.1 Derbyniodd y Comisiynydd gais dilys o dan adran 111 y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur) ar 1 Mai, 2014 gan unigolyn (P). Honnodd y cais bod meddyg dan gyflogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (D) wedi ymyrryd â rhyddid yr unigolyn i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R), sef plentyn yn yr achos hwn.
- 1.2 Honnai'r cais i'r meddyg ddweud wrth y rhiant a'r plentyn na ddylent siarad yn Gymraeg gyda'i gilydd gan fod gwneud hynny'n peri gofid i'r aelod staff.
- 1.3 Mae'r cais yn ysgrifenedig ac yn darparu cyfeiriad lle y caiff y Comisiynydd gysylltu â P.
- 1.4 Mae'r cais yn ei gwneud yn hysbys pwy yw D ac yn disgrifio'r ymyrraeth honedig.
- 1.5 Cynhaliodd dau unigolyn gyfathrebiad Cymraeg uniongyrchol yng Nghymru. Roedd yr unigolion yn dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad.

## 2 Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

- 2.1 Yn unol ag adran 114 y Mesur, gofynnodd y Comisiynydd i'r rhiant a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd), fel cyflogwr y meddyg, am wybodaeth neu farn ynghylch yr ymyrraeth honedig er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio i'r achos ai peidio. Ar yr un pryd, darparodd y Comisiynydd i'r ddau barti y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad o dan Ran 6 y Mesur ac amlinelliad o bwerau'r Comisiynydd mewn perthynas ag ymchwiliad o'r fath, fel sy'n ofynnol o dan adran 114(3)(c).
- 2.2 Ar sail cais gwreiddiol y rhiant a'r wybodaeth bellach a dderbyniwyd ganddo a'r Bwrdd Iechyd, penderfynodd y Comisiynydd agor ymchwiliad o dan Ran 6 y Mesur yn ystod cyfarfod o'r Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol ar 3 Mehefin, 2014. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, ystyriwyd y materion penodol canlynol o dan adran 114 y Mesur:

*114. – (3) Wrth benderfynu ai i ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ai peidio –*

*(a) rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth ym mha gyd-destun yr honnir bod yr ymyrraeth wedi digwydd (gan gynnwys y berthynas (os oes perthynas) sy'n bodoli rhwng D a P a rhwng D ac R, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ddwy berthynas hyn);*

*(b) caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig; ac*

*(c) rhaid i'r Comisiynydd, os yw'n gofyn i P neu D am wybodaeth neu'n holi ei farn, roi i P neu D yr wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau.*

## 3 Yr ymchwiliad

- 3.1 Nod yr ymchwiliad oedd galluogi'r Comisiynydd i ddyfarnu a wnaeth y meddyg ymyrryd â rhyddid y rhiant a'r plentyn i ymgymryd â chyfathrebiad uniongyrchol yn Gymraeg â'i gilydd ai peidio. Dyfarniad y Comisiynydd ar yr ymchwiliad a gynhaliwyd mewn ymateb i gais y

rhiant o dan adrannau 115-117 y Mesur ac adroddiad y Comisiynydd o dan adran 118 y Mesur yw'r ddogfen hon.

- 3.2 Mae adran 115 y Mesur yn rhoi disgrisiwn i'r Comisiynydd o ran pennu trefn ar gyfer cynnal ymchwiliad. Amlinellwyd trefn yr ymchwiliad mewn llythyr i'r rhiant, dyddiedig 23 Mehefin, 2014. Anfonwyd llythyr cyffelyb at Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar yr un dyddiad. Gofynnwyd iddynt ymateb i gwestiynau penodol ynghylch yr ymyrraeth honedig ac fe'u gwahoddwyd i ddarparu unrhyw wybodaeth neu farn ychwanegol oedd, yn eu barn nhw, yn berthnasol i'r ymchwiliad.
- 3.3 Gofynnwyd i'r rhiant gadarnhau a oedd unrhyw un arall yn bresennol yn ystod y digwyddiad a allai fod wedi clywed yr hyn a ddywedwyd gan y meddyg. Gofynnwyd i'r rhiant gadarnhau bod ei gais gwreiddiol yn ffeithiol gywir ac fe'i wahoddwyd i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'r cais hwnnw.
- 3.4 Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd egluro natur rôl y meddyg ac i ddarparu datganiad gan y meddyg yn disgrifio'r hyn a ddigwyddodd ar yr achlysur dan sylw. Gofynnwyd am gadarnhad a oedd y meddyg wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ac, os darparwyd hyfforddiant, amlinelliad o natur yr hyfforddiant.
- 3.5 Yn dilyn gohebu â'r Bwrdd Iechyd i ofyn am wybodaeth neu farn ynghylch yr ymyrraeth honedig (fel yr amlinellir ym mhwynt 2.1 uchod) daeth y Comisiynydd yn ymwybodol fod y Bwrdd Iechyd ei hun wedi cynnal ymchwiliad i amgylchiadau'r achos. Yn olaf, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd amlinellu canfyddiadau a chanlyniadau'r ymchwiliad hwnnw.
- 3.6 Ymatebodd y rhiant a'r Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:
  - Derbyniwyd ymateb gan y rhiant ar 30 Mehefin, 2014.
  - Yn dilyn caniatáu cais am estyniad i'r cyfnod ymateb, derbyniwyd ymateb llawn gan y Bwrdd Iechyd ar 11 Gorffennaf, 2014.

### 3.7 Honiad y rhiant:

- 3.7.1 Ym mis Ebrill 2014 derbyniodd y plentyn driniaeth feddygol gan feddyg mewn adran benodol o ysbyty o fewn gofalaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'r isod yn gopi o gais y rhiant i'r Comisiynydd o dan adran 111 y Mesur:

*Yn dilyn ymweliad [ag adran o ysbyty benodol] hoffwn ddwyn eich sylw at ymddygiad [...] un o'r meddygon ar yr uned.*

*Cafodd fy [mhlentyn ei weld gan feddyg] ac 'roedd wedi cael cadarnhad [na fydda'n rhaid iddo] fynd i'r uned plant, a phan ddywedodd y meddyg y bydda raid [mynd] yno fe aeth sefyllfa ddrwg yn waeth. Oherwydd [cyflwr meddygol y plentyn] dechreuodd siarad gyda mi yn y Gymraeg, gan mae [sic] dyna yw ei [iaith] gyntaf. Ymatebais inna yn y Gymraeg ac 'roedd hi'n amlwg nad oedd y meddyg yn hapus, [...], dywedodd wrthym 'I know you are Welsh but please stop talking in Welsh as I am taking it as a personal offence'.*

*Mae'n anodd credu y bod hi'n dderbyniol i fod yn hiliol yn y wlad hon tuag at y Cymry, ni [fydda'r meddyg yn] meiddio dweud hyn wrth unrhyw genedl*



*arall. [...] Cywilyddus yw hyn, dylai unrhyw staff gael eu addysgu ynglŷn a Pholisi Iaith.*

3.7.2 O'r wybodaeth a ddarparwyd, dealltwriaeth y Comisiynydd yw bod y rhiant yn honni i'r meddyg wahardd y rhiant a'r plentyn rhag defnyddio'r Gymraeg wrth ymgymryd â chyfathrebiad uniongyrchol yn Gymraeg gyda'i gilydd.

### 3.8 Ymateb y Bwrdd Iechyd:

3.8.1 Yn ei ymateb cadarnha'r Bwrdd Iechyd mai meddyg sy'n gweithio ar gytundeb locwm yn yr adran benodol o'r ysbyty dan sylw yw'r meddyg.

3.8.2 Yn rhan o ymchwiliad y Bwrdd Iechyd i amgylchiadau'r achos cynhaliwyd cyfweiliad â'r meddyg a pharatôdd y meddyg ddatganiad ysgrifenedig o'r hyn a ddigwyddodd. O ganlyniad i ddyletswydd gyfreithiol y Bwrdd Iechyd i warchod gwybodaeth bersonol y plentyn, ni rannwyd y datganiad ysgrifenedig hwn gyda'r Comisiynydd. Yn hytrach, darparwyd crynhoad o ddatganiad y meddyg gan y Bwrdd Iechyd.

3.8.3 Am resymau cyfrinachedd, ni rannwyd yn llawn ganfyddiadau ymchwiliad y Bwrdd Iechyd i amgylchiadau'r achos gyda'r Comisiynydd.

3.8.4 Noda'r ymateb i'r plentyn ymweld â'r ysbyty gyda'i riant. Derbyniodd y plentyn ymgynghoriad gyda'r meddyg. Roedd angen gofal brys ar y plentyn ac wrth ddarparu'r gofal hwn gwnaeth y meddyg ei 'orau glas i gyfathrebu â'r claf er mwyn ei helpu'.

3.8.5 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr hyn a ddigwyddodd ac yn ymhelaethu ar y rhesymau dros i'r meddyg ymyrryd fel y gwnaeth:

*Mae'r meddyg wedi cadarnhau bod y claf wedi dechrau siarad yn Gymraeg yn unig gyda'i [riant] a bod y meddyg yn pryderu gymaint am ddiogelwch y claf mewn sefyllfa glinigol frys, [fod y meddyg wedi gofyn i'r claf] roi'r gorau i siarad yn Gymraeg.*

3.8.6 Mae'r Bwrdd Iechyd yn egluro pam y teimlodd y meddyg bod y cyfathrebiad Cymraeg yn ei dramgwyddo'n bersonol:

*Roedd hyn yn tramgwyddo'r meddyg yn bersonol gan na fyddai'n gallu rhoi'r cymorth brys yr oedd ei angen ar y claf, oni bai [bod y meddyg] yn gallu cyfathrebu [â'r plentyn] yn uniongyrchol.*

3.8.7 Noda'r ymateb bod y meddyg wedi gwerthuso'r digwyddiad a'i fod yn cydnabod nad oedd y geiriau 'tramgwyddo'n bersonol' yn ffurf gywir ar eiriau i'w defnyddio:

*Ymddiheurodd y meddyg am y sylw hwn ar y pryd gan ei bod yn amlwg bod y claf a'i [riant] yn gofidio. Erbyn meddwl, mae'r meddyg yn deall bod [y] dewis o eiriau'n drwsgl ac y gallai beri tramgwydd i rywun. Nid dyna oedd [y bwriad]. Heb amheuaeth, mae'n derbyn mai camgymeriad gonest oedd hwn a'i [f]od wedi defnyddio'r gair anghywir mewn sefyllfa anodd a heriol iawn. Blaenoriaeth bennaf y meddyg oedd bywyd a diogelwch y claf.*

3.8.8 Cadarnha'r ymateb bod pob meddyg locwm sy'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd yn derbyn pecyn cynefino sy'n benodol i'w lleoliad gwaith. Mae'r pecyn yn cynnwys gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog. Noda'r Bwrdd Iechyd ei

fod yn y broses o ddiweddarau'r pecyn er mwyn cryfhau'r wybodaeth a roddir am gyfrifoldebau'r Bwrdd lechyd yn unol â'i gynllun iaith Gymraeg statudol. Dyfynnwyd rhannau perthnasol y pecyn cyfredol mewn perthynas â darparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn yr ymateb.

- 3.8.9 Dywed yr ymateb, petai'r meddyg yn aelod parhaol o staff y Bwrdd lechyd byddai wedi derbyn rhagor o hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg:

*Mae'r sesiwn [ar gyfer staff parhaol] yn ymdrin â rhwymedigaethau'r Bwrdd lechyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a dyfodiad Safonau'r Iaith Gymraeg, yn ogystal â chyfeiriadau manwl Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, sef 'Mwy na Geiriau'. Caiff sensitifwydd tuag at iaith a phwysigrwydd darparu gwasanaeth yn newis iaith y claf eu pwysleisio fel elfen hanfodol o ddarpariaeth gofal gwell.*

- 3.8.10 Wrth gloi, noda'r Bwrdd lechyd ei fod yn 'ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn sgil y digwyddiad hwn yn cael eu gweithredu'.

- 3.9 O'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd lechyd, dealltwriaeth y Comisiynydd yw bod y meddyg wedi gofyn i'r plentyn roi'r gorau i siarad yn Gymraeg gyda'i riant. Yn ôl y Bwrdd lechyd wnaeth y defnydd o'r Gymraeg rhwng y rhiant a'r plentyn beri tramgwydd personol i'r meddyg. Ystyr y tramgwydd hwnnw yn ôl y Bwrdd lechyd, oedd bod defnydd y rhiant a'r plentyn o'r Gymraeg gyda'i gilydd yn rhwystro'r meddyg rhag darparu'r cymorth brys oedd ei angen ar y plentyn.

- 3.10 Serch hynny, ceir cydnabyddiaeth gan y meddyg bod ei ddefnydd o eiriau yn annoeth a'i fod wedi ymddiheuro wrth y rhiant a'r plentyn ar y pryd.

- 3.11 Gwybodaeth bellach gan y Bwrdd lechyd:

- 3.11.1 Mae adran 117(4) y Mesur yn datgan ei bod yn ofynnol i'r Comisiynydd hysbysu D o'r dyfarniad y mae'n bwriadu ei wneud ac o'r farn y mae'n bwriadu ei roi ar yr ymyrraeth. Yn unol â'r ddyletswydd hwn, hysbyswyd y Bwrdd lechyd o ddyfarniad a barn arfaethedig y Comisiynydd ar 30 Medi, 2014. Yn dilyn hynny, derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan y Bwrdd lechyd mewn dau llythyr, dyddiedig 7 a 9 Hydref, 2014. Nid oedd y wybodaeth ychwanegol a amlinellwyd yn y llythyrau hyn yn darparu rhagor o fanylion ynghylch y digwyddiad dan sylw, ond yn hytrach yn amlygu safbwynt y Bwrdd lechyd mewn perthynas â'r ymyrraeth.

- 3.11.2 Noda'r ymateb cyntaf, dyddiedig 7 Hydref, nad yw'r Bwrdd lechyd yn cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg. Bwriad y wybodaeth flaenorol a ddarparwyd i'r Comisiynydd, mewn llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf 2014, oedd darparu gwybodaeth at ddibenion yr ymchwiliad:

*Bwriad y wybodaeth [...] oedd darparu gwybodaeth gefndirol a oedd yn gosod amgylchiadau unigryw'r achos. Nid unwaith y'i bwriedir fel datganiad i geisio cyfiawnhau camau'r meddyg.*

- 3.11.3 Dywed yr ymateb mai prif bryder y meddyg oedd cyflwr meddygol y plentyn a'i fod yn gweithredu er mwyn canfod gwybodaeth glinigol er mwyn ei drin:

*Roedd y meddyg yn ceisio canfod gwybodaeth glinigol hanfodol i sicrhau asesiad a thriniaeth frys.*

3.11.4 Ceir yn yr ymateb gadarnhad i'r ymyrraeth ddigwydd yn rhan o broses asesu clinigol:

*Dymuna'r Bwrdd Iechyd gadarnhau bod yr ymyrraeth wedi digwydd yn ystod y broses asesu clinigol ac roedd pryderon y meddyg o'r herwydd yn anhepgor er mwyn sicrhau diagnosis a thriniaeth [g]ywir er mwyn amddiffyn iechyd y claf yn ogystal â diogelwch eraill.*

Fodd bynnag, pwysleisia'r ymateb nad yw'r Bwrdd Iechyd am gyfiawnhau ymddygiad y meddyg ac nad yw'n cydoddef ymddygiad o'r fath.

3.11.5 Noda'r ymateb bod ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu hyfforddiant i'w staff yn ategu ei wrthwynebiad i ymddygiad y meddyg:

*Rydym yn adnabod nad yw'r camau a gymerwyd gan y meddyg yn dderbyniol a dyna pam bod camau eisoes ar waith i fynd i'r afael â materion o ran hyfforddiant ymwybyddiaeth i geisio dealltwriaeth y gweithlu o faterion o'r fath.*

3.11.6 Ceir cadarnhad y bydd y Bwrdd Iechyd yn diwygio ei hyfforddiant i staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o ryddid unigolion o dan y Mesur i ddefnyddio'r Gymraeg:

*Bydd sesiynau o hyn allan yn cael eu diwygio i adlewyrchu'n llawn na fydd y Bwrdd Iechyd yn ymyrryd â hawl unigolyn [sic] i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.*

3.11.7 Mewn ail lythyr, dyddiedig 9 Hydref, ceir cadarnhad pellach o safbwynt y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r ymyrraeth a'r graddau y bo'r ymyrraeth yn angenrheidiol ai peidio:

*Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ac yn derbyn yn llawn y bu i'r meddyg yn yr achos hwn ymyrryd â rhyddid y claf i ddefnyddio'r Gymraeg. [...] Rydym yn cydnabod bod ffordd arall i'r meddyg gyflawni ei ddyletswydd o ofalu am y claf heb ymyrryd â'i ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg.*

3.11.8 Eglura'r ymateb ei fod yn fwriad gan y Bwrdd Iechyd i anfon llythyr pellach at y plentyn a'i riant yn ymddiheuro am ymyrryd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.

3.12 O'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, yn dilyn ei hysbysu o ddyfarniad arfaethedig y Comisiynydd, mae'r Comisiynydd ar ddeall nad yw'r sefydliad yn cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n cydnabod y bu i'r meddyg ymyrryd â rhyddid y plentyn a'r riant i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gyda'i gilydd ar yr achlysur hwn ac nad oes cyfiawnhad i'r ymyrraeth hwnnw.

## 4 Dyfarnu'r ymchwiliad

4.1 Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth y cyfeirir ati uchod, mae'r Comisiynydd wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- 4.1.1 Mae'r meddyg wedi cydnabod ei fod wedi gofyn i'r rhiant a'r plentyn beidio â siarad yn Gymraeg gyda'i gilydd. Ar sail yr wybodaeth hon, ynghyd â thystiolaeth y rhiant a gohebiaeth y Bwrdd Iechyd, mae'r Comisiynydd yn dyfarnu bod y meddyg wedi ymyrryd â rhyddid y rhiant a'r plentyn i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gyda'i gilydd sef 'cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn' fel y'i diffinnir yn adran 112 y Mesur.
- 4.1.2 At ddibenion Rhan 6 y Mesur, dyfernir bod yr ymyrraeth yn gyson ag adran 113(2) Mesur y Gymraeg sy'n nodi:

*113. – (2) Achos 1 yw pan fo D yn mynegi na ddylai P neu R ymgymryd –*

*(a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg.*

## 5 Barn y Comisiynydd ar yr ymyrraeth

### Sylwadau rhagarweiniol

- 5.1 Mae'r Comisiynydd yn rhoi ei barn ar yr ymyrraeth isod (gan gynnwys ei barn ynghylch a ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth, ond heb fod yn gyfyngedig i'r farn honno):
- 5.1.1 Nid yw Mesur y Gymraeg yn rhoi arweiniad ynghylch y math o gamau fyddai'n cyfiawnhau ymyrraeth â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Er nad oes gan y Comisiynydd hawl i ffurfio barn ar sail hawliau dynol mae'n rhesymol rhoi sylw i egwyddorion cysylltiedig.
- 5.1.2 Y prif faes sy'n delio â rhydd-didau ac sy'n asesu trosedd yn erbyn y rhydd-didau hynny yw'r maes hawliau dynol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae Erthygl 8 yn ymwneud yn benodol â'r hawl i gael parch tuag at fywyd preifat a theuluol. Mae Erthygl 14 yn ychwanegu bod yn rhaid i'r hawl yma gael ei fwynhau heb anffafiaeth ar amryw sail, gan gynnwys iaith. Mae hawl Erthygl 8 wedi ei gyfyngu hefyd mewn rhai achosion penodol ac fe ddywed fel hyn:
- There shall be no interference by a public authority with the exercise of this right except such as is in accordance with the law and is necessary in a democratic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others.*
- 5.1.3 Gan y gellir cyfiawnhau ymyrryd â'r rhyddid yn Erthygl 8 mewn rhai amgylchiadau er mwyn gwarchod iechyd, mae'n rhesymol i'r Comisiynydd gymhwyso egwyddorion yr asesiad cysylltiedig a ddefnyddir gan y llysoedd wrth ffurfio ei barn ar y graddau y gellid cyfiawnhau ymyrraeth â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr achos hwn.

### Sail gyfreithiol yr ymyrraeth er dibenion darparu gofal

- 5.2 Mae'r Comisiynydd yn derbyn bod gan y meddyg bryderon gwirioneddol am les a diogelwch y plentyn ar yr achlysur dan sylw. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cydnabod angen y meddyg i gyfathrebu'n glir ac yn uniongyrchol gyda'r plentyn er mwyn darparu'r gofal brys yr oedd ei angen arno mewn sefyllfa glinigol ddifrifol.

- 5.3 Mae dyletswydd ar weithwyr iechyd i roi safon o ofal i glaf y byddai 'corff cyfrifol o farn feddygol' yn ei ystyried yn briodol ar gyfer yr anhwylder dan sylw (Prawf 'Bolam' - *Bolam v. Friern Hospital Management Committee [1957] 1 WLR 582*, a wedi ei addasu gan *Bolitho v. City and Hackney Health Authority [1997] 4 All ER 771*). Er bod dyletswydd ar y GIG o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i ddarparu gwasanaethau i ofalu am bersonau sydd â salwch, nid oes ganddo'r hawl i drin claf heb ei gytundeb. Mae'r penderfyniad o gytuno i dderbyn triniaeth yn un i'r claf neu, os yn blentyn nad yw'n gallu penderfynu drosto'i hun, i'r rhiant sy'n gyfrifol amdano/amdani. Lle mae cyflwr meddygol y claf (neu blentyn sy'n agored i niwed) yn achosi pryder, mae proses ffurfiol i feddyg ei dilyn er mwyn asesu a yw'r claf yn gymwys i wneud penderfyniadau drosto'i hun. Mae'r broses ffurfiol hon yn cynnwys gwrandao ar farn y claf.
- 5.4 Er bod ymateb y Bwrdd Iechyd yn nodi bod y meddyg yn pryderu am ddiogelwch y claf, nid oes unrhyw awgrym nad oedd gan y claf y gallu i wneud penderfyniadau drosto'i hun neu gyda'i riant. Nid yw'r Comisiynydd o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth â rhyddid y rhiant a'r plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd ar y sail bod yr ymyrraeth wedi digwydd at ddibenion cyflawni dyletswydd cyfreithiol o dderbyn cytundeb gan glaf i ofal neu driniaeth feddygol.

### Angenrheidrwydd yr ymyrraeth

- 5.5 Fel y nodir ym 5.1.3 uchod, gellid cyfiawnhau ymyrraeth â'r hawl yn Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 mewn rhai amgylchiadau er mwyn diogelu iechyd. Os mai bwriad y meddyg wrth ddweud wrth y rhiant a'r plentyn beidio â siarad Cymraeg gyda'i gilydd oedd ceisio deall a oedd y claf yn cytuno i'r driniaeth a gynigiwyd, gellir dadlau bod peth cyfiawnhad dros yr ymyrraeth ar sail amddiffyn iechyd y claf. Fodd bynnag, hyd yn oed os oedd y meddyg yn pryderu am ofal y claf ac yn ceisio cyflawni dyletswydd gyfreithiol o gael cytundeb, mae'r dull a ddefnyddiwyd ar yr achlysur dan sylw yn ormodol. Os oedd y meddyg yn pryderu y gallai'r sgwrs rhwng y rhiant a'r plentyn effeithio ar benderfyniad y plentyn ynglŷn â derbyn y driniaeth neu beidio, gallai'r meddyg fod wedi gofyn i'r rhiant neu'r plentyn am ei benderfyniad ar ôl i'r sgwrs orffen neu dorri ar draws os oedd y mater angen ateb ar frys. Yn lle hyn, mynegodd y meddyg y farn na ddylai'r rhiant a'i blentyn ymgymryd â chyfathrebiadau yn Gymraeg o gwbl. Nid oedd angen cymryd y cam anghymesur hwn.
- 5.6 Ceisiodd y Bwrdd Iechyd gyflwyno eglurhad o'r hyn olygwyd wrth y geiriau 'tramgwydd personol', sef bod defnydd y rhiant a'r plentyn o'r Gymraeg wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad dan sylw yn atal y meddyg rhag darparu'r cymorth brys oedd ei angen ar y plentyn. Serch hynny, ceir cydnabyddiaeth gan y Bwrdd Iechyd bod ffordd arall o gyflawni ei ddyletswydd heb ymyrryd â'r rhyddid o dan y Mesur, sef holi'r plentyn (neu'r rhiant) am ei benderfyniad.
- 5.7 Yn ei ymateb noda'r Bwrdd Iechyd bod yr achos hwn wedi amlygu angen i wella hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer ei holl staff ac mae camau eisoes wedi eu cymryd i adnabod meysydd allweddol i'w targedu. Yn sgil y digwyddiad mae'r Bwrdd Iechyd wedi egluro ei fwriad i newid ei brosesau a'i hyfforddiant i staff. Mae'n amlwg nad yw mesurau presennol y Bwrdd Iechyd yn ymdrin yn ddigonol â meddygon locwm ar gontractau dros dro a'i fod yn bwriadu newid y mesurau hyn. Noda'r Bwrdd Iechyd ei fwriad i atgyfnerthu'r mesurau sydd mewn lle ar gyfer cefnogi staff clinigol ac eraill wrth iddynt ddarparu gwasanaethau.



## 6 Crynodeb o farn y Comisiynydd ar yr ymyrraeth

- 6.1 Yn yr achos hwn, mae sgwrs uniongyrchol yn digwydd rhwng rhiant a phlentyn. Nid yn unig mae'r meddyg wedi anwybyddu eu rhyddid o dan y Mesur, ond mae hefyd wedi ceisio cyfiawnhau camau cwbl anghymesur trwy ddadlau ei fod yn gwarchod iechyd y plentyn. Nid yw'r Comisiynydd o'r farn y gellid cyfiawnhau'r ymyrraeth ar y sail ei fod yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r meddyg i ymgymryd â'i ddyletswydd cyfreithiol i ddarparu triniaeth feddygol i'r claf.

## 7 Cyngor

- 7.1 Yn unol ag adran 117(7) y Mesur mae'r Comisiynydd yn rhoi'r cyngor canlynol ynghylch yr ymyrraeth:
- 7.1.1 Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adlewyrchu mewn dogfen bolisi nad yw'n cydoddef unrhyw ymyrryd mewn sgysiau rhwng rhiant a phlentyn pan fo rheiny'n arfer eu rhyddid i ystyried a thrafod y gofal iechyd a gynigir fel uned deuluol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.1.2 Dylai'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro i'r rhiant a'r plentyn am ymyrryd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.
- 7.1.3 Dylai unrhyw hyfforddiant y bwriedir ei gynnig fynd i'r afael yn llawn â gofynion Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel na fydd staff o fewn cyflogaeth y Bwrdd Iechyd yn ymyrryd mewn modd anghyfiawn â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd.

## 8 Ymholiadau

- 8.1 Dymuna'r Comisiynydd ddiolch i'r partïon perthnasol am eu cydweithrediad wrth gynnal yr ymchwiliad hwn.
- 8.2 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiad yr ymchwiliad at:

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT